# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Mynydd Llandegai**

**Ysgol Bodfeurig**
**Sling**
**Tregarth**
**Gwynedd**
**LL57 4RN**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âCylch Meithrin Mynydd Llandegai

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Mynydd Llandegai |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma’r archwiliad cyntaf ers ail-gofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Gweithredol' o'r Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn adnabod ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan blant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Mae plant yn weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn  mwynhau ystod dda o weithgareddau tu mewn ac yn yr awyr agored yn ogystal â gallu dewis ymlacio i gael ychydig o amser tawel. Mae plant yn cael cyfle i archwilio eu hardal chwarae yn annibynnol ac  yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda.

Mae gan staff ddealltwriaeth briodol o'u rôl i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cynnig amgylchedd cartrefol, ac mae eu rhyngweithio'n gynnes a chyfeillgar. Bydd staff yn cynllunio ac yn trefnu gweithgareddau a chyfleoedd addas i helpu i ddatblygu sgiliau dysgu, chwarae a chorfforol plant gyda cyfleoedd addas i chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn ddiogel ac yn lân. Mae staff yn goruchwylio plant yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r teganau, yr adnoddau a'r offer yn briodol i oedran  y plant, mewn cyflwr addas ac yn ennyn eu diddordeb.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig ac yn gweithio'n galed.  Maent wedi adeiladu tîm cryf o staff i helpu i sicrhau gwelliannau i blant. Maent yn  rheoli'r lleoliad yn briodol.  Fodd bynnag, mae angen gwella rhai meysydd ymhellach er mwyn bodloni'r rheoliadau.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae plant yn hapus, yn teimlo’n ddiogel ac wedi ymgartrefu’n dda. Maent yn weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu.

Mae plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt yn y lleoliad. Mae plant yn gyfathrebwyr hyderus gan fod eu dymuniadau, eu teimladau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Yn ogystal, maent yn siarad am eu hoff bethau yn frwdfrydig. Er enghraifft, dywedodd plentyn wrth aelod o staff, gyda gwen fawr, ‘dwi yn hoffi mango’.

Mae plant yn ymdopi’n dda gyda gweithgareddau diddorol y lleoliad, sy’n cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigolion yn dda. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol fel golchi a sychu eu dwylo cyn amseroedd bwyd ac ar ôl chwarae tu allan. Mae’r rhan fwyaf o blant yn mynd at staff yn rhwydd i wneud ceisiadau ac yn eu gwahodd i chwarae. Er enghraifft, gofynnodd plentyn i staff chwarae siop trin gwallt, ac fe gawson drafodaeth fywiog a hwyliog am sut i wneud gwalltiau’r doliau.

Mae plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a’r staff ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu  gwerthfawrogi. Maent yn mwynhau cymdeithasu ag eraill yn ystod amser snac ac yn datblygu agweddau ac arferion da. Mae’r plant yn dysgu rhannu a chymryd eu tro yn bwrpasol. Er enghraifft, cymerodd ddwy ffrind eu tro i dynnu’r propiau bwyd allan o'r fasged siopa a rhannu'r cynnwys. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf o blant yn dysgu am garedigrwydd tuag at eraill yn dda. Er enghraifft, maent yn gofalu am eu doliau a daliodd plentyn llaw ei ffrind wrth iddynt neidio ar hyd y glaswellt.

Mae plant yn dewis gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, bu grŵp bach o ffrindiau yn ymarfer cyfri yn llwyddiannus. Roeddent yn cyfri y siapau crwn ar ben y cownteri ac yn cyfateb hyn i gerdyn gyda’r rhif cywir. Maent yn mwynhau archwilio eu hardal chwarae gan wneud dewisiadau am yr hyn y maent am wneud. Cwblhaodd rhai plant jig-sos yn frwdfrydig tra bod eu ffrindiau yn paratoi te yn y gornel gartre. Mae plant eraill yn mwynhau amser tawel trwy ddarllen llyfrau neu ymarfer eu sgiliau ysgrifennu trwy ysgrifennu rhestrau siopa.

Mae plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn effeithiol. Maent yn helpu eu hunain i ffrwyth a thywallt eu diod eu hunain. Ar ôl iddynt orffen eu snac, mae plant yn ail-gylchu eu gwastraff bwyd. Maent yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y staff.

| Gofal a Datblygiad | Digonol |
|---|---|

Mae staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion yn syth. Mae perthynas hyfryd yn bodoli rhyngddynt ac maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion, gan ddathlu eu cyflawniadau'n frwdfrydig.

Mae gan y mwyafrif o'r staff ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac maent yn gweithredu'r rhan fwyaf o'r polisïau yn addas. Maent yn cofnodi presenoldeb plant yn brydlon ac mae eu hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu yn gyfredol. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff yn hyderus ynghylch gweithdrefnau diogelu ac mae angen anogaeth ar rai i ymateb. Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn dilyn y gweithdrefnau diogelu fel yr amlinellir ym mholisi'r lleoliad. O ganlyniad, ni ddilynwyd pryder am blentyn i fyny yn amserol a phriodol. Mae hyn yn rhoi iechyd a llesiant plant mewn perygl ac rydym felly wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r staff yn sicrhau bod plant yn cael bwyd iach a bod dŵr a llefrith ar gael iddynt. Mae staff yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn addas ond nid yw staff yn sicrhau bod y rhain yn cael eu harwyddo'n gyson gan rieni / gofalwyr i ddangos tystiolaeth eu bod wedi cael eu hysbysu. Nid yw staff yn cynnal driliau tân ar adegau priodol. Mae staff yn annog plant i olchi eu dwylo sy'n eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn llwyddiannus.

Mae staff yn cynnig gofal cynnes a chyfeillgar I'r plant ac maent yn eu cyfarch gyda gwên a lleisiau tyner. Maent yn canmol y plant yn gadarnhaol a theyrngar am eu hymdrechion a'u llwyddiannau.

Mae staff yn ymateb i anghenion unigol y rhan fwyaf o blant, yn sicrhau amgylchedd cynhwysol ac yn rheoli rhyngweithiadau yn dda. Maent yn dilyn trefniadau cadarn er mwyn diwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn synhwyrol. Mae staff yn trefnu profiadau dysgu a chwarae addas i'r plant ac yn eu cefnogi mewn ffordd sensitif a chadarnhaol.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau amgylchedd dysgu a chwarae sy'n ddiogel a glân ac yn cynnig cyfleoedd addas i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad.

Maent yn cwblhau asesiadau risg generig sy'n amlinellu'n fras y camau i'w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Er hyn, nid yw'r rhain yn gwbl gyfredol nac yn adlewyrchu arferion y lleoliad a'r gweithgareddau yn ddigon clir. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad wedi cynyddu'r trefniadau glanhau arferol ac maent yn dilyn y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau yn addas. Maent yn sicrhau bod yr holl staff yn goruchwylio'r plant yn dda ac yn gwybod sut i ymateb i unrhyw argyfwng.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn addas. Mae hyn yn galluogi'r plant i symud o gwmpas yn rhydd, gan wneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae gan blant fynediad at ystod eang ac amrywiol o deganau, adnoddau a dodrefn o feintiau priodol. Mae hyn yn cynnwys dewis eang o adnoddau naturiol i feithrin medrau'r plant yn addas. Mae teganau ac adnoddau wedi eu gosod yn gyfleus o fewn cyrraedd y plant, sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau a dewisiadau am yr hyn y maent eisiau defnyddio. Mae gan y lleoliad ardal addas i blant storio eu heitemau personol sy'n creu ymdeimlad o berthyn.

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau cyflenwad addas o adnoddau amlddiwylliannol i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cymdeithas ehangach. Yn ogystal, maent yn defnyddio deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu a'u hailddefnyddio yn addas. Mae'r ardal awyr agored yn eang ac yn cynnig cyfle i blant ddatblygu eu sgiliau corfforol ac archwilio'r ardal goedwig i helpu plant ddysgu am y byd naturiol.  Fodd bynnag gan bod yr ardal allanol yn cael ei rhannu gyda'r ysgol gynradd, nid ydy y plant yn cael mynediad i'r awyr agored pan fyddant yn dymuno.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cynnig gofal cynnes, sy'n creu ymdeimlad o berthyn ymhlith y plant. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau i gwrdd â rheoliadau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwella eu datganiad o bwrpas. Mae'r ddogfen yma yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol i helpu rhieni a gofalwyr i wneud dewis gwybodus am y gofal a ddarparerir. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau arwyddocaol yn y lleoliad. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r unigolion cyfrifol fynd i'r afael â hyn. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymrwymo i ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ysgrifennu adroddiad sylfaenol yn adolygu ansawdd gofal ac yn nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Maent wedi casglu sylwadau gan rieni a phlant ond nid wedi cynnwys sylwadau'r staff er mwyn eu helpu i werthuso'r lleoliad yn llawn.

Nid oes gan bob person sy'n rhedeg y lleoliad dystysgrif Gwasanaeth Gwahardd Datgelu (GGD) cyfredol. Er enghraifft, roedd tystysgrif un o'r unigolion cyfrifol wedi dod i ben. Tra nad oes angen camau brys, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r unigolion cyfrifol fynd i'r afael â hyn. Yn dilyn ein hymweliad, mae'r unigolyn cyfrifol wedi cyflwyno tystiolaeth foddhaol ei fod wedi cymryd camau priodol I sicrhau ei fod yn cydymffurfio ac mae ei gais am dystysgrif GGD newydd yn cael ei brosesu. Yn ystod ein hymweliad, nid oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i gasglu i dystio bod staff yn addas i weithio gyda phlant. Yn dilyn ein hymweliad, gweithredodd yr unigolyn cyfrifol ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a chyflwyno cadarnhad ysgrifenedig bod y mater hwn wedi cael sylw. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol yng nghofnodion unigol y plant wedi cael ei gasglu er mwyn cyfarfod â'u hangenion. Dywedodd staff a siaradwyd â nhw eu bod yn mwynhau eu rôl ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae staff yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniad sylfaenol i drafod eu lles, ymarfer ac unrhyw bryderon diogelu sydd ganddynt.

Ni chawsom gyfle i siarad â rhieni / gofalwyr. Dywedodd y person â gofal a'u bod yn gweithio ar ddatblygu gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth plant o'u cymuned leol er mwyn gwella eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 22 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr holl staff wedi darllen a deall y polisi diogelu, er mwyn rhoi'r polisi ar waith a gweithredu'r gweithdrefnau yn briodol a chywir. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau arwyddocaol i'r lleoliad trwy ei borth ar-lein AGC. | Newydd |
| 6 | Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod ei dystysgrif GGD yn gyfredol. | Newydd |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Standard 5 - Records | Sicrhau bod pob damwain a digwyddiad yn cael ei lofnodi gan rieni / gofalwyr i ddangos eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. |
| Standard 24 - Safety | Sicrhau bod driliau tân yn cael eu cynnal o leiaf bob 6 mis, gan gydnabod bod plant yn elwa o ymarfer mwy aml. |
| Standard 24 - Safety | Sicrhau bod asesiadau risg yn adlewyrchu'n llawn y safle, y gweithgareddau ac unrhyw deithiau y gall plant gymryd rhan ynddynt. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/08/2023